PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 19 Mai 9, 2024 50c.




# Mesur Diogelwch Rwanda




Y mae llawer ohonom fel Cristnogion yn anhapus iawn gydag agwedd Llywodraeth San Steffan tuag at ymgeiswyr lloches. Fe ymddengys bod y llywodraeth bresennol yn barod i drin y bobl druan hyn yn annynol er mwyn ceisio plesio canran o'u cefnogwyr. Rhoddant yr argraff fod y bobl sy'n croesi'r Môr Udd ar y cychod bychan yn gyfrifol am gyflwr enbydus economi gwledydd Prydain ar hyn o bryd a'u bod yn bobl ddrwg. Dylent yn hytrach gywilyddio eu bod yn caniatáu i bobl a phlant foddi yn hytrach nac estyn cymorth ac ymgeledd iddynt.

Yn ddiweddar mae Archesgobion Caergaint a Chaerefrog wedi ymuno gydag Esgob Southwark ac arweinwyr eglwysi eraill i fynegi eu 'hamheuon mawr' ynghylch Mesur Diogelwch Rwanda, a basiwyd yn y Senedd nos Lun, yn dilyn wythnosau o drafod ac anghytuno. Yn sgil y ddeddfwriaeth hon bydd rhai ceiswyr lloches yn cael eu halltudio i Rwanda, Affrica, o fewn ychydig wythnosau er mwyn prosesu eu cais am loches. Ond fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon y mae Llywodraeth Prydain yn deddfu bod Rwanda yn wlad ddiogel i anfon ymgeiswyr iddi. Mae hyn yn ateb hwylus iawn iddynt hwy. Ond y gwir yw nad yw Rwanda'n wlad sefydlog gan nad yw'n parchu na gweithredu hawliau dynol sylfaenol bob amser.

**Datganiad**

Mewn datganiad ar y cyd, fe fynegodd arweinwyr Eglwys Loegr, yr Eglwysi Catholig, Methodistaidd, Bedyddiedig a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig eu pryderon am y pardduo bwriadol sy'n digwydd o bobl sy'n ffoi rhag rhyfel, erledigaeth a thrais. Dywedwyd yn y datganiad:

> Rydym yn nodi gyda thristwch a phryder yr atgasedd cynyddol sydd tuag at y rhai sy'n dod i geisio lloches yn ynysoedd Prydain a'r modd y maent yn cael eu defnyddio er mwyn gwneud pwyntiau gwleidyddol.

Gwyddom fod y sefyllfa hon yn un anodd ei datrys ar fyrder ond ein cyfrifoldeb ni fel Cristnogion yw annog ein harweinyddion i ddelio gyda hyn mewn ffordd gyfiawn, lle mae'r anghenus yn cael gofal a diogelwch. Nid ein gelynion yw'r ymgeiswyr lloches ond brodyr a chwiorydd a grëwyd ar lun a delw Duw.

# Capel Mair, Aberteifi



Cynhaliwyd oedfa Gymun Y Groglith Cyngor Eglwysi Rhyddion Aberteifi a'r Cylch yng Nghapel Mair. Roedd y gwasanaeth dan lywyddiaeth Nona Davies, yr organydd oedd Beti Emanuel, a'r pregethwr gwadd eleni oedd y Parchedig Carys Ann.

# Derbyn dau




Ar fore dydd Sul, 7 Ebrill, yn ystod gwasanaeth y cymun yng nghapel Pen-y-bont, Cas-blaidd, derbyniwyd dau frawd yn aelodau newydd, sef Hywel a Carwyn Davies. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Geoffrey Eynon.

# Rhiw Siôn

Tybed faint ohonoch sy'n gwybod ble mae Rhiw Siôn? Fe wn i, am mai ar Riw Siôn yr oedd fy nhad-cu a mam-gu yn byw a byddwn yn treulio fy ngwyliau ysgol gyda nhw. Gan fy mam y dysgais am Tomos Jones, Rhiw Siôn. Y mae un emyn un pennill o'i eiddo yng *Nghaniedydd Cynulleidfaol yr Annibynwyr* ond ysywaeth ni chafodd ei gynnwys yn *Caneuon Ffydd*.

### Clos-y-Graig

Yr oedd Tomos Jones yn byw mewn bwthyn bach o'r enw Clos-y-Graig ar ymyl y rhiw serth sydd ar y ffordd allan o Gwm-cou tuag at Aberteifi – yr hen ffordd cyn adeiladu pont Cenarth. Rydw i'n cofio'r bwthyn gwyngalchog pan oedd pobl yn byw ynddo ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf ond erbyn heddiw prin y gwelir y murddun ynghanol y dryswch a'r mieri. Yr unig arwydd bod hwn wedi bod unwaith yn gartref yw'r clawdd lelog porffor ar hyd y stribyn tir a oedd yn ardd




lysiau. Crydd oedd Tomos Jones wrth ei alwedigaeth ac roedd hefyd yn fardd gwlad. Ond tlawd iawn oedd y teulu, deuddeg ohonynt yn byw yn y bwthyn deupen. Yn ôl fy mam, byddai'r bechgyn yn cysgu yn nhas wair fferm Troed-y-rhiw islaw. Byddai hi'n dyfynnu'r cwpled a gyfansoddodd Tomos Jones pan ofynnodd rhyw ŵr a oedd yn cerdded heibio pwy oedd yn byw yn y bwthyn yma. Ateb Tomos Jones oedd, 'Haid o gryddion llwyd eu gruddie, Heb un bara lawer bore.'

A'r bardd gwlad tlawd hwn a gyfansoddodd yr emyn yma (rhif 898 yn *Y Caniedydd Cynulleidfaol Newydd*):

Nac aed Calfaria fynydd
　Byth o'm cof.
　Byth o'm cof;
Na loesion mawr fy Arglwydd
　Byth o'm cof.
Nac aed y bigog goron,
Na'r waywffon na'r hoelion,
Na'r marw rhwng y lladron
　Byth o'm cof,
　Byth o'm cof;
Na'r dydd agorwyd ffynnon
　Byth o'm cof.

Y mae ffynnon yn y graig uwchben yr hen fwthyn. Rwy'n hoffi meddwl bod medru cael dŵr bywiol o'r graig hon wedi ei symbylu i ysgrifennu llinell olaf yr emyn.




### Trysori atgof

Pan oeddwn yn blentyn slawer dydd ac yn byw yn Llanelli, byddem yn canu'r emyn yma yng Nghapel Als ar y dôn 'Tŵr Gwyn' yn ystod y gwasanaeth cymun. Ein gweinidog bryd hynny oedd y Parchg D. J. Davies a enillodd gadair y Genedlaethol am ei awdl i'r fam. Gŵr main, eiddil o gorff ydoedd gyda gwallt hir gwyn, ac yr oedd y ffordd dawel, urddasol y byddai yn gweinyddu'r cymun yn creu awyrgylch hynod sanctaidd a chysegredig a greodd argraff ddofn ar ferch yn ei harddegau. Byddai emyn y crydd o Riw Siôn yn ychwanegu at y cyfan, atgof yr wyf yn ei drysori hyd heddiw.

**Elenid Jones**

*[Cofiaf y Parch John Gwilym Jones yn dyfynnu'r pennill hwn mewn oedfa gymun yng nghapel Pendref, Bangor, ac y mae wedi aros yn fy nghof byth oddi ar hynny. Yr oedd yn brofiad arbennig ar fy mhererindod ysbrydol. Gol.]*

# Nebo, Felindre

Cawsom gymanfa ganu Sul y Blodau arbennig gyda'n harweinydd Euros Rhys Evans ac Eiri Jones Evans ar yr organ. Braf oedd dod ynghyd fel cylch o eglwysi lleol i ganu mawl i'n Brenin am 200 mlynedd o addoliad yn Nebo, Felindre.

**R. Locke**



Yr Adran
Gydenwadol

MAI 9 2024 RHIF 167

# Cofio hil-laddiad Rwanda, Ebrill–Gorffennaf 1994

Y dyddiau hyn, mae Rwanda yn cael llawer o sylw oherwydd mesur y llywodraeth yn San Steffan i anfon yno rai sy'n ceisio lloches ym Mhrydain drwy ddulliau sy'n cael eu gweld yn anghyfreithlon. Ond cofiwn yma am yr hil-laddiad ddigwyddodd yno 30 mlynedd yn ôl i'r gwanwyn hwn.

Dechreuodd y lladd ar 6 Ebrill 1994, pan saethwyd i lawr awyren yr oedd arlywydd Rwanda, Juvénal Habyarimana, ac arlywydd Bwrwndi, Cyprien Ntaryamira, yn teithio ynddi wrth iddi baratoi i lanio yn Kigali. Lladdwyd y ddau arlywydd. Mewn cyfnod o gan niwrnod rhwng 6 Ebrill a chanol Gorffennaf, lladdwyd nifer fawr o lwyth y Tutsi gan ddau filisia Hutu, yr Interahamwe a'r Impuzamugambi. Lladdwyd cryn nifer o Hutu oedd yn gwrthwynebu'r milisia hefyd. Amcangyfrif yn unig sydd o'r rhai a laddwyd yno bryd hynny, ac mae hynny rhwng 500,000 a miliwn o bobl.

Diolchwn i'r Dr Rhiannon Lloyd, Llandudno, am yr ysgrif hon a'r lluniau yn rhannu am ei gwaith a'i phrofiad hithau'n gweld cymod yn Rwanda. (Gol.)

Y tro cyntaf i mi fynd i Rwanda, ym mis Medi 1994, 12 wythnos ar ol i'r hil-laddiad yn erbyn y Tutsi ddod i ben, roedd yn lle tywyll iawn. Roedden nhw'n amcangyfrif fod hyd at filiwn o bobl wedi cael eu lladd mewn can niwrnod. Doedd yna ddim arwydd o obaith yn unrhyw le. Ac eto, yr adnod ddaeth i'm meddwl oedd Rhufeiniaid 15:13 sy'n sôn am Dduw'r gobaith yn gwneud i obaith



Hoelio'u storïau ar y Groes



Lladdodd Eliya (mewn crys llwyd) 13 o deulu Gaston (yn y crys coch). Bu Eliya yn y carchar am rai blynyddoedd ond mae wedi edifarhau'n ddwfn. Mae Gaston wedi maddau iddo – cymod anhygoel! Y ddau'n ffrindiau mawr bellach ac yn cydweithio i ddod ag iachâd i'r wlad.

orlifo ynom drwy'r Ysbryd Glân. A gobaith Duw oedd gwaith gorffenedig Iesu ar y groes. Pan es i 'nôl ychydig fisoedd ar ôl hynny, yr Ysgrythur annisgwyl ddaeth i'm meddwl oedd Eseia 60:1–3 sy'n sôn am ogoniant Duw i'w weld ar ei bobl er gwaetha'r tywyllwch dudew. Fel canlyniad, byddai'r cenhedloedd yn dod at y goleuni. Roedd hi'n anodd credu y byddai hynny'n wir am Rwanda, ond penderfynais ei gredu a'i ddatgan.

Ers hynny, dwi wedi bod yn ôl yn Rwanda o leiaf 60 o weithiau ac wedi cael y fraint aruthrol o weld Duw ar waith mewn ffyrdd cwbwl anhygoel reit o'r dechrau. Ar ôl i ddioddefwyr a'r euog hoelio'u poen a'u heuogrwydd ar y Groes, dwi wedi bod yn dyst i faddeuant ac edifeirwch sy wedi arwain at gymodi cwbwl drawiadol.

Ers 1996 mae timau'n cynnwys pobl o'r ddau lwyth wedi eu hyfforddi i redeg gweithdy tridiau 'Iacháu Calonnau, Trawsnewid Cenhedloedd'. Nid yn unig maen nhw'n gweld gwyrthiau yng nghalonnau pobl Rwanda ac ardaloedd cyfan wedi eu trawsnewid, ond hefyd mae rhai ohonyn nhw wedi bod yn mynd i wledydd eraill hefo neges iachâd a chymod drwy'r Groes.

Cynhelir Ysgol Gymodi Ryngwladol yn Rwanda ers blynyddoedd bellach. Mae pobl o ben draw'r byd wedi bod yn dod i ddysgu am brofiad Rwanda, ac mae timau cymodi wedi eu hyfforddi mewn nifer o wledydd dros y byd. Mae Duw wedi cyflawni Eseia 60:1–3! Iddo Fo bo'r gogoniant i gyd.

Gallwch ddarllen mwy yn fy llyfr *Lilïau Tân*, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair ac sydd ar werth yn eich siop lyfrau leol. Am fwy o wybodaeth am y gwaith, ewch i wefan HHTNGlobal.org

*Dr Rhiannon Lloyd*
*Llandudno*

# Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion



Y Parch. Ddr Watcyn James, Llywydd y Gymanfa



Y teulu MacDonald o Batagonia



Mrs Helen Medi Williams, arweinyddes cyfarfod y plant, yn cael cymorth gyda'r symudiadau

Roedd dydd Sul, 28 Ebrill, yn ddiwrnod arbennig i gapeli gogledd Ceredigion – diwrnod y Gymanfa Ganu flynyddol. Tro Capel Bethel, Tal-y-bont, oedd hi i groesawu'r Gymanfa eleni, a chafwyd croeso cynnes yno a threfniadau hwylus iawn.

Cyfarfod y plant a gafwyd yn y bore, a phlant Ysgol Sul Bethel, Tal-y-bont, oedd yn gyfrifol am y rhannau dechreuol. Yna, cyflwynwyd yr emynau gan blant yr ysgolion Sul lleol: Horeb, Penrhyn-coch; Capel Seion; Capel y Morfa, Aberystwyth, a Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth. Yr arweinyddes oedd Mrs Helen Medi Williams, ac roedd mwynhad y plant yn amlwg wrth iddynt ymateb i'w dull cartrefol ac agos-atoch o arwain yr emynau.

Braint oedd croesawu'r teulu MacDonald, o'r Gaiman, Patagonia, i'r cyfarfod a chafwyd eitem hyfryd ganddynt, a'u dehongliad o'r emyn 'Plant bach Iesu Grist' yn swyno'r gynulleidfa.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Lywydd Pwyllgor y Gymanfa, sef y Parchedig Ddr R. Watcyn James, a chyflwynodd stori'r ddau aeth i'r deml i weddïo mewn dull apelgar i'r plant – a'r oedolion oedd yn bresennol.

Yn dilyn y cyfarfod, braf oedd cyfle i fwynhau paned a sgwrs yn y neuadd.

Mrs Delyth Hopkins Evans, Pontrhydygroes, oedd yr arweinyddes yng nghymanfa'r hwyr, a chafwyd canu ystyrlon ac eneiniedig dan ei harweiniad. Y llywydd, Y Parchedig Ddr Watcyn James, oedd yn gyfrifol am y defosiwn, ac yn ei anerchiad tynnodd sylw at y cyfeiriadau niferus at ganu yn yr ysgrythur ac yn ein hemynau, a'i bwysigrwydd allweddol yn ein traddodiad mawl. Ef hefyd a gyflwynodd yr emyn coffa a ganwyd er cof am y rhai a gollwyd o'n plith yn ystod y flwyddyn.

Y cyfeilydd yn y ddau gyfarfod oedd Mrs Falyri Jenkins, a diolchodd y Llywydd iddi hi am ei chyfraniad pwysig yn ystod y dydd ac i bawb a fu ynglŷn â threfnu'r gymanfa lwyddiannus hon.

*Marian Beech Hughes*

# Gweddi dros etholiadau India

Mae Cristnogion yn India yn gofyn i'w teulu eglwysig byd-eang ymuno â nhw i weddïo dros yr etholiadau cenedlaethol sy'n cael eu cynnal yno rhwng 19 Ebrill ac 1 Mehefin. Cyhoeddir y canlyniadau ar 4 Mehefin.

Er bod rhyddid crefydd neu gred yn hawl gyfansoddiadol yn India, mae Cristnogion mewn sawl ardal dan fygythiad cynyddol gan eithafwyr Hindŵaidd. Mae hyn yn aml yn cynnwys ymosodiadau treisgar, a dyna un o'r prif resymau pam mae India yn rhif 11 ar Restr Gwylio'r Byd eleni. Rhestr Gwylio'r Byd yw rhestr flynyddol Open Doors o wledydd lle mae Cristnogion yn wynebu'r erledigaeth fwyaf eithafol.

I'n brodyr a'n chwiorydd yn India, mae rhyddid crefyddol yn y fantol yn yr wythnosau nesaf wrth i genedlaetholwyr Hindŵaidd geisio gosod eu hagenda. Mae Cristnogion India yn ofni y gallai'r etholiadau arwain at weithredu'r deddfau yn erbyn tröedigaeth (anti-conversion) yn ehangach, hyd yn oed ledled y wlad. Dyma'r deddfau a ddefnyddir yn aml i dargedu credinwyr â chyhuddiadau ffug.

Open Doors

**ETHOLIADAU INDIA**

## GWEDDÏWCH

- Am ymgyrchu ac etholiadau heddychlon
- Na fydd pobl yn cael eu dylanwadu gan bropaganda ffug neu gamarweiniol
- Er mwyn amddiffyn Cristnogion yn India



Gweddïwch os gwelwch yn dda:


- Am ymgyrchu ac etholiadau heddychlon
- Na fydd pobl yn cael eu dylanwadu gan bropaganda ffug neu gamarweiniol
- Er mwyn amddiffyn Cristnogion yn India.

Mae fersiwn Cymraeg o'r llyfryn *Rhestr Gwylio'r Byd* ar gael bellach at ddefnydd ein heglwysi o anfon nodyn at Jim Stuart: jims@opendoorsuk.org

# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 24**
**Banc Bwyd**

**Darlleniad: Genesis 41:37–49; Marc 12:21–4**

### Gweddi

Plygwn o'th flaen, Arglwydd, yn ein myfyrdod, gan ddiolch am y bwyd sydd ar ein bwrdd bob dydd. Byddwn yn medru tyfu neu brynu bwydydd iach a blasus, gan wybod bod y dewis sydd gennym yn eang. Helpa ni i feddwl heddiw am y rhai sydd heb yr incwm priodol i gwrdd â'u holl gostau ac sy'n gorfod dewis rhwng talu biliau neu brynu bwyd i'r teulu. Amen.

### Cyflwyniad

Bydd hanes Joseff yn gyfarwydd i bawb, ac yntau wedi ei werthu fel caethwas i'r Aifft gan ei frodyr cenfigennus. Cododd ei statws o fod yn garcharor i fod yn brif weinidog yr Aifft, a hynny am fod ganddo'r ddawn i ddehongli breuddwydion a threfnu'n dda. Ar ddechrau Pennod 41 cofnodir breuddwydion Pharo am y saith buwch denau yn bwyta'r saith buwch dew, a'r saith dywysen denau yn llyncu'r saith dywysen dew. Dehonglodd Joseff y breuddwydion i rag-weld saith mlynedd ffyniannus ac yna saith mlynedd heb gnydau, a bod angen darparu yn y cyfnod o lewyrch ar gyfer y cyfnod o newyn. Cafodd Joseff y gwaith gan Pharo o drefnu i storio bwydydd yn y saith mlynedd dda ar gyfer y saith mlynedd wael. Yn ddiweddarach yn yr hanes daeth brodyr Joseff o Ganaan i chwilio am fwyd, ac mae'r hanes yn gorffen gyda chymod rhwng y teulu cyfan.

### Myfyrdod

Bydd pob teulu doeth yn cynilo mewn cyfnod o ddigonedd er mwyn eu cynnal eu hunain mewn cyfnod o brinder. Bydd rhai, fel actorion neu'r sawl sydd heb waith cyson, yn gorfod dysgu'r egwyddorion sylfaenol hyn. Beth am y bobl sydd heb ddigon yn y lle cyntaf, ac yn ôl yr hen air yn 'dal llygoden a'i bwyta'? Yn yr un modd, mewn gwledydd lle ceir sychder mawr am sawl blwyddyn, fel yng ngogledd cyfandir yr Affrig, nid oes economi ddiogel i sicrhau unrhyw gynilo, ac maent yn aml yn bwyta'r tatws had heb syniad beth i'w blannu ar gyfer y tymor nesaf. Daw enwau gwledydd fel Eritrea ac Ethiopia yn sydyn i'r cof o argyfyngau'r gorffennol.

Yr un math o ing a ddaw yn brofiad i'r teuluoedd ym Mhrydain sydd yn aml yn gweithio, fel nad ydynt yn medru hawlio nawdd cymdeithasol, ond heb ennill digon i dalu costau sylfaenol bywyd ac yn gorfod gwneud dewisiadau anodd yn rheolaidd. Nodwedd gyfarwydd ym Mhrydain bellach yw'r Banciau Bwyd, a bu'r eglwysi ar flaen y gad yn casglu bwydydd sych neu fwydydd mewn tuniau. Bydd y teuluoedd tlawd hyn yn cael talebau gan weithwyr cymdeithasol neu ganolfannau meddygol sy'n eu galluogi i gasglu bagiaid o nwyddau cyfwerth â thri diwrnod o fwyd i'w helpu ar eu taith. Prin bod hyn yn ddelfrydol, ond y mae'n cwrdd â gofynion y dydd. Bu'n rhan o weithgarwch eglwysi Cymraeg Caerdydd a'r cylch i darparu brechdanau a ffrwythau yn y festri ar brynhawn Sul, ac mae'r gwasanaeth wedi ymestyn fel bod bwyd ar gael ar ddydd Mercher hefyd. Bu siopau a bwytai lleol yn hapus i estyn bwyd hefyd, ac yn ystod 2024 gwelwyd deugain a mwy yn gwerthfawrogi croeso a lluniaeth y lle.

Prin bod hyn yn ymarferol ym mhob ardal, ond gall pob eglwys a chymuned gydweithio i gynnal Banc Bwyd. Gallwn ddyfynnu geiriau Iesu eto o ddameg y Defaid a'r Geifr, 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch' (Mathew 25).

### Gweddi

Trugarha wrthyf, Arglwydd, am boeni gormod am ymborth fy mwrdd i, heb feddwl am yr hyn sydd ar fwrdd y rhai sydd heb fodd i gynllunio bwydlen iach i'w teuluoedd. Diolchwn heddiw am y cyfeillion sy'n cydlynu cynllun y Banciau Bwyd ac yn effro i'w rannu'n deg â'r anghenus yn ein broydd. Agor fy llygaid i weld y cyfle ac i weithredu gyda llu o gymunedau ffydd eraill a mudiadau dyngarol ledled Caerdydd, ac ar draws y byd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Prin y byddai Joseff a'i gôt amryliw wedi rhag-weld ei waith ym 'manc bwyd' yr Aifft, mwy na bod merch o Malta yn weinidog yn y Tabernacl, Caerdydd. A fyddwn yn gweld darpariaethau annisgwyl Duw?
2. Pwy roddodd fwyaf: y wraig â'r ddwy hatling neu'r cyfoethog a estynnodd bunnoedd?
3. Pwy sy'n elwa fwyaf dros ddegawdau drwy gynllun y banciau bwyd: y sawl sy'n derbyn neu'r sawl sy'n rhoi?
4. Mae'r lluniau o'r Palestiniaid yn Gaza yn heriol, ond a welwn yr un angen mewn nifer o wledydd ar gyfandir yr Affrig nawr?

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 12 Mai, am 7:30yb a 16:30yp**
Y gantores opera Siân Meinir sy'n trafod rhai o emynau Ann Griffiths

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 12 Mai, am 12yp**
Oedfa dan ofal Nan Wyn Powell-Davies – Sul Cymorth Cristnogol

## Capel Pisgah, Talgarreg, Ceredigion



Diacon hynaf eglwys Pisgah yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed. Yn y llun mae y gweinidog a'r diaconiaid ac Ifonwy Lloyd yn 90 oed gyda'i briod Siân ar eu haelwyd yn fferm Cletwr, Talgarreg yn derbyn hamper gan y gweinidog ac aelodau eglwys Pisgah.



Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd, yng nghapel Bryngwenith, ger Castellnewydd Emlyn, Ceredigion. Cafwyd gwasanaeth bendithiol tu hwnt ddechrau mis Mawrth. Beth am i'ch eglwys chi ymuno ym mis Mawrth 2025?



Newyddion o Geredigion ac anogaeth i holl ddarllenwyr *Y Tyst*, beth am gynnal Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd Mawrth 2025? Yn y llun gweler dwy eglwys wedi ymuno i gynnal y gwasanaeth sef Brynmoriah, Brynhoffnant a Glynarthen, Ceredigion. Os am fentro flwyddyn nesaf cysylltwch â Beti-Wyn neu Carys Ann.

## Glynarthen

Capel Glynarthen, Ceredigion. Dymuniadau gorau i un o ffyddloniaid eglwys Glynarthen sef Mary Davies, Delfryn, Glynarthen gynt o Bantseiri Fach. Dyma un sydd wedi ei magu yn sŵn yr Efengyl yn eglwys Glynarthen. Mawr yw ein diolch iddi am ei ffyddlondeb a'i chefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

**Carys Ann**





**Dydd Sul, Mai 19eg, 2024 am 2.00**

**Tabernacl – Hendy-gwyn**
**Oedfa i ddathlu**
**150 mlynedd**

Pregethwr gwadd –
Parch. Dyfrig Rees

Croeso cynnes i bawb

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Y Cyfarfodydd Blynyddol 2024**

**Prifysgol De Cymru, Trefforest**
**11–13 Gorffennaf**

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 30 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

# Barn Annibynnol

## Yr amlenni cochion

Pan ddêl Mai a'i lifrai las
Ar irddail i roi'r urddas,
Aur a dyf ar edafedd
Ar y llwyn, er mwyn a'i medd.

Dyna sut y croesawodd Dafydd ap Gwilym fis Mai slawer dydd – trwy sôn am y coed yn glasu a'r banadl yn blodeuo'n aur. Mae hyn yn rhoi urddas arbennig i fyd natur, meddai. Ym mis Mai, yn ogystal â chroesawu tyfiant glas ac aur y gwanwyn, mae llawer ohonom mewn eglwysi a chymunedau yn croesawu amlenni coch Wythnos Cymorth Cristnogol. Ac fel y mae'r dail ir a blodau'r banadl yn rhoi urddas i fyd natur, mae'r arian a gesglir yn yr amlenni coch, mewn digwyddiadau ac ar lein yn helpu i roi urddas i bobl sy'n byw o dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

### Apêl eleni

Aline o Burundi yw wyneb apêl Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (12–18 Mai) ac mae wedi byw trwy nifer o brofiadau a fyddai'n siŵr o wneud iddi deimlo'n ddiurddas.


- Priodwyd Aline'n ifanc iawn a chafodd ei phlentyn cyntaf yn ddim ond 14 oed.
- Roedd ei gŵr yn gas a bu'n ei cham-drin am rai blynyddoedd.
- Cymerodd y gŵr wraig arall gan orfodi Aline i ffoi.
- Honnai fod salwch meddwl ar Aline a mynnodd gadw'r plant. Anfonodd y tri ieuengaf i fyw at aelodau o'i deulu.
- Bu Aline yn ddigartref, yn crwydro'r strydoedd yn gofyn i ddieithriaid am le i aros. Roedd rhai'n garedig ond eraill yn sarhaus a dirmygus.

'Doedden nhw ddim yn cofio fy mod i'n fod dynol. Roedd hynny'n fy llenwi â thristwch,' meddai Aline. Meddyliwch am effaith hynny ar urddas rhywun. Sut fyddech chi'n teimlo yn y sefyllfa honno?

### Cyfle newydd

Ond roedd Aline yn benderfynol o symud ymlaen a, gyda help Cymorth Cristnogol, llwyddodd i gymryd nifer o gamau i adfer ei hurddas.

- Aeth ar gwrs cymunedol a ariannwyd gan Gymorth Cristnogol a dysgu sut i sefydlu cymdeithas gynilo. Rhoddodd hyn obaith ac egni newydd iddi.




- Cafodd fenthyciad i ddechrau busnes yn gwerthu afocados a chnau mwnci.
- Â'r elw, prynodd feic fel y gallai gario mwy, yn bellach.
- Llwyddodd i rentu tŷ a dihangodd ei thri mab hynaf oddi wrth eu tad i fyw gyda hi. Ei gobaith yw y gall y tri phlentyn arall ddod hefyd.
- Erbyn hyn, mae ganddi lain o dir ac mae'n codi tŷ arno â brics y mae hi wedi'u crasu.
- Prynodd baneli solar i'r plant gael golau i wneud eu gwaith cartref.
- Mae'n tyfu ffa, llysiau a chorn i fwydo'i theulu.

Diolch i Gymorth Cristnogol, cafodd Aline arweiniad a roddodd hwb enfawr i'w hyder a'i hurddas.

### Hyrwyddo cyfiawnder

Trwy gyfrannu at Gymorth Cristnogol yn ystod yr wythnos arbennig ym mis Mai a thrwy'r flwyddyn, gallwn helpu pobl fel Aline ym mhedwar ban byd. Mae gan Gymorth Cristnogol 245 o bartneriaid, 25% ohonynt o gefndir ffydd, yn gweithio ar 272 o brosiectau ar draws Affrica, Asia, y Dwyrain Canol, America Ladin a'r Caribî. Yn eu plith mae prosiectau addysg, iechyd, heddwch a chyfiawnder, dŵr glan, sicrwydd bwyd ac addasu i'r argyfwng hinsawdd. Mae'r prosiectau hyn wedi cyrraedd 2.9 miliwn o bobl yn uniongyrchol, 55% yn wragedd a merched ifanc, ac 17.7 miliwn yn anuniongyrchol trwy'r gymdeithas ehangach.

### Yn lleol

Nod Cymorth Cristnogol yw sicrhau mai pobl leol sydd wrth galon yr holl benderfyniadau wrth geisio lleddfu effeithiau tlodi eithafol yn eu cymunedau. Hefyd, ceisiant ymateb yn ymarferol i anghenion lleol a rhyngwladol trwy ymgyrchu am newidiadau i greu gwelliant parhaol. Yn ogystal â phrosiectau hirdymor, mae Cymorth Cristnogol yn effro i'r angen i drefnu cymorth brys mewn argyfyngau. Codwyd bron £1.7miliwn gan apêl ddyngarol mewn ymateb i'r argyfwng sy'n lledu drwy Gaza. Hefyd, mae Cymorth Cristnogol yn bartner mewn apeliadau achlysurol fel apêl y Ffynhonnau Byw a gynhelir gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni i godi pobl allan o dlodi a rhoi hwb i'w hyder a'u hurddas.

Felly, a ninnau ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol (gydag ymddiheuriadau i Dafydd ap Gwilym):

Pan ddêl Mai a'i amlen goch
Daw urddas i rai trwoch.

**Llinos Roberts**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

**Dyma gyfle i ymuno mewn cyfres o sesiynau fydd yn archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy'r Beibl.**

**Addoli a Phregethu**

Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall

Mae gwahanol fathau o addoliad, yn cynnwys addoliad pob oed, gwasanaethu mewn ysgolion, a gwasanaethau byr wrth ymweld ag aelwydydd. Mae cynnwys addoliad hefyd yn gallu amrywio, megis oedfa bregethu, oedfa pryd y gweinyddir un o'r sacramentau, neu oedfaon ar gyfer achlysur penodol megis priodas neu angladd.

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i archilio'r amrywiol fathau, ac ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau.

**Dyddiadau:** 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 7:00 - 8:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl**

Tiwtor: Arfon Jones

Yn allweddol i'r ffydd Gristnogol mae'r hyn a ddatguddir i ni drwy Air Duw, ac a gofnodir yn y Beibl. Drwy'r modiwl hwn, cynigir cyfle i'r sawl sy'n dilyn y modiwl gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono.

**Dyddiadau:** 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 8:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu'r ddau.**

**Dyma'r modiwlau disgwyliedig ar gyfer cymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig hefyd. Os mai dyna eich dymuniad, nodwch hynny wrth gofrestru.**

**I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru**

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg 2024

*Oni nodir yn wahanol, cynhelir y cyfarfodydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd*

## DYDD IAU, 11 Gorffennaf 2024

**1.30** **CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg T. Jeffrey Williams
Defosiwn yng ngofal Parchg Owain Llŷr Evans

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023 (y Llyfr Gwyrdd)
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2025 Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol

**3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

**4.00** **Cyfarfod Heddwch ***
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor
Sesiwn yng ngofal y Parchg Ron Williams

**5.30** Egwyl

**6.00** Swper

**7.30** **Noson yng nghwmni Delwyn Siôn a'u gyfeillion***

## DYDD SADWRN, 13 Gorffennaf 2024

**9.30** Defosiwn yng ngofal Mr Emlyn Davies *

**9.45** **Cyflwyniad eglwysi ***
Llanfair Pen-rhys, Tabernacl Efailisaf a'r Angor Grangetown

**10.45** Te/coffi

**11.15** **CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Mr Dafydd Roberts
Emyn
Gweddi: Parchg Noel Davies
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Anerchiad y Llywydd
Emyn
Y Fendith

**12.30** Cinio ac Ymadael

*Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau*
** Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

## DYDD GWENER, 12 Gorffennaf 2024

**9.30** **CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg T. Jeffrey Williams
Defosiwn yng ngofal Parchg Owain Llŷr Evans

**10.00** Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Y Cyfansoddiad
Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol – diweddariad

**11.00** Te/coffi

**11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

**12.00** Anerchiad gan Parchg Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd*
'*Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325*'
Cadeirydd: Parchg T. Jeffrey Williams

**1.00** Cinio

**2.00** **CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg T. Jeffrey Williams
Penderfyniadau:
Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau *
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

**3.30** Te/coffi

**4.00** Cyfarfod Hanes *
Sgwrs gan Richard Hughes ar fywyd a gwaith Rhys Nicholas (1914–96)

**5.00** Egwyl

**5.30** Swper

**7.30** **OEDFA O FAWL** yn Tabernacl, Efailisaf *
Llywydd: Parchg T. Jeffrey Williams
Galwad i addoli
Emyn
Darllen:
Gweddïo:
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Allan Pickard
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cyflwyno tystysgrifau hyfforddiant
Emyn
Pregeth: Parchg Euron Hughes
Emyn
Y Fendith

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*